**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MERCHER, 2 MAWRTH 2022 DYDD MERCHER, 2 MAWRTH 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Louise Bishop (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:-<br><br>Cynghorydd J. Wilkins (Perchennog Busnes)<br><u>Eitem No. 9 – Cymorth Ardrethi Busnes –</u><br><u>Cymorth Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch – 2022/2023</u> | |
| | **<u>COFNODION</u>** | |
| **No. 4** | **<u>CYFARFOD ARBENIG O'R PWYLLGOR GWIEHTREDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| | **<u>MATERION CYFFREDINOL</u>** | |
| **No. 5** | **<u>CYNADLEDDAU/CYRSIAU A GWAHODDIADAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cynadleddau/Cyrsiau a Gwahoddiadau.<br><br><u>2022 Partïon Gardd Brenhinol, Llundain</u><br><br>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynghorydd C. Meredith yn mynychu. | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>** | |
| **No. 6** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH – 16 MAWRTH 2022</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Arweinydd y Cyngor.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd y caiff adroddiadau monitro ychwanegol eu hychwanegu at yr agenda a gaiff eu derbyn er mwyn gorffen unrhyw fusnes. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD derbyn y Flaenraglen Gwaith a chytuno ar y Flaenraglen Gwaith fel y'i cyflwynwyd ar gyfer y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gweithredol ar 16 Mawrth 2022 (Opsiwn 1). | |

**No. 7**

## GRANTIAU I SEFYDLIADAU

n Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.

Nodwyd y grantiau diliynol i sefydliadau a dderbyniwyd ers cyhoeddi'r oddiad.

**ABERTYLERI**

Ward Llanhiledd - Cynghorydd L. Parsons

| | |
|---|---|
| Cyfeillion Illtyd Sant | £166.75 |
| Knit & Natter | £100 |
| Grŵp Gweithgareddau Brynithel | £250 |
| Clwb Bowls Brynithel | £100 |
| Groundwork Cymru | £100 |

**BRYNMAWR**

Ward Brynmawr - Cynghorydd W. Hodgins

| | |
|---|---|
| BGfm | £250 |
| Eglwys Libanus | £3007 |
| Fforwm Busnes Brynmawr | £150 |
| G – Expressions | £144.85 |

**Ward Brynmawr - Cynghorydd L. Elias**

| | |
|---|---|
| Eglwys Libanus | £150 |
| Cwmni Theatr Gerdd Brynmawr | £54.85 |

**GLYNEBWY**

Ward Badminton - Cynghorydd C. Meredith

| | |
|---|---|
| Clwb CameraTredvale | £150 |
| Apêl Elusennol Cadeirydd y Cyngor | £100 |
| WOAP Raglan Terrace | £150 |
| Canolfan Cyswllt Plant Glynebwy | £100 |
| Eglwys Dewi Sant | £113.07 |

Ward Rasa - Cynghorydd D. Wilkshire

| | |
|---|---|
| Ysybty Tri Chwm | £150 |
| Bowls Rasa a Beaufort | £68.34 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. | Pensiynwyr Rasa | £68.34 | |
| 4. | Puddleducks | £68.34 | |
| 5. | Clwb Rygbi Beaufort | £68.34 | |
| 6. | Rhos y Fedwen | £68.34 | |
| 7. | Côr Meibion Beaufort | £68.34 | |
| 8. | Capel y Graig | £68.34 | |
| 9. | Pêl-rwyd Glynebwy | £68.40 | |
| | **<u>NANTYGLO A BLAENAU</u>** | | |
| | <u>Ward Nantyglo - Cynghorydd P. Baldwin</u> | | |
| 1. | Katie Treharne | £200 | |
| 2. | Clwb Rygbi Nantyglo | £150 | |
| 3. | Capel Wesleyaidd | £100 | |
| 4. | Hooks & Pins | £100 | |
| 5. | Eglwys St Anne y Drindod Sanctaidd | £100 | |
| 6. | Pensiynwyr Winchestown | £100 | |
| 7. | Ymddiriedolaeth Mynwent Hermon | £600 | |
| 8. | Siop Gymunedol Nantyglo | £250 | |
| 9. | Clwb Pêl-droed Nantyglo | £200 | |
| 10. | BGfm | £150 | |
| 11. | Cyfellion Parc Nant y Waun | £100 | |
| 12. | Grwp Sgowtiaid 1af Blaenau | £100 | |
| 13. | Pensiynwyr Nantyglo | £100 | |
| 14. | Tŷ Cymunedol Nantyglo | £184.10 | |
| | <u>Ward Blaenau - Cynghorydd J. P. Morgan</u> | | |
| 1. | Clwb Pêl-droed Nantyglo | £250 | |
| 2. | Archaeoleg Aberystruth | £100 | |
| 3. | BGfm | £144.10 | |
| 4. | Caban Menywod Ystruth | £200 | |
| 5. | Bowls Dynion Blaenau | £500 | |
| 6. | Eglwys Fethodistaidd Cwmcelyn | £100 | |
| 7. | Sgowtiaid Blaenau | £100 | |
| 8. | Coedcae Interact | £100 | |
| 9. | Canolfan Gymunedol Blaenau | £200 | |
| 10. | Apêl Elusennol Cadeirydd y Cyngor | £50 | |
| | **<u>TREDEGAR</u>** | | |
| | <u>Ward Sirhywi - Cynghorwyr T. Smith a M. Cross</u> | | |
| 1. | Clwb Rygbi Trefil | £200 | |
| 2. | Côr Meibion Orffews Tredegar | £100 | |

| | | |
|---|---|---|
| | 3. Corfflu Hyfforddiant Awyr Sgwadron 2167 £100<br>4. Clwb Pysgota Tredegar £50<br>5. Fforwm Treftadaeth Blaenau Gwent £100<br>6. Clwb Rygbi Tredegar Ironside £200<br>7. Ardal Gwent Cymdeithas Merlod a Chobiau Cymreig £50<br>8. Coetiroedd Cwm Sirhywi £50<br>9. Canolfan Gymunedol Nantybwch £350<br>10. Canolfan Gymunedol Sirhywi £350<br>11. Canolfan Gymunedol Ystrad Deri £350<br>12. Capel Horeb £50<br>13. Capel Sardis £50<br>14. Eglwys San Siôr £100<br>15. Clwb Bocsio Amatur Silwraidd £50<br>16. Clwb Pêl-droed Iau Tredegar £50<br>17. Cymdeithas Operatig Tredegar £200<br>18. Cymdeithas Gefeillio Tredegar £100<br>19. Ysgol Gynradd Glanhywi (Awtistiaeth) £100<br>20. Eglwys Gynulleidfaol Gymraeg Ebenezer £100<br>21. Eglwys yr Ymddŵyn Difrecheulyd £50<br>22. Sefydliad Merched Tredegar £50<br>23. Cymru Creations £169.70<br>24. Valleys Life Afterstroke £50<br>25. Clwb Rhedeg Brynbach £100<br>26. Clwb Pêl-droed Derwen £50<br>27. Capel Siloam £50<br>28. Bowls Dynion Parc Bedwellte £250<br>29. Clwb Pysgota Sirhywi £100<br>30. Apêl Arch Noa £50<br>31. Clwb Rygbi Tredegar £100<br>32. Apêl Maer Tredegar £100<br>33. Moose Rhyngwladol £50<br><br><u>Ward Sirhywi - Cynghorydd B. Thomas</u><br><br>1. Kids R Us £100<br>2. Cymdeithas Operatig Tredegar £200<br>3. Lleng Brydeinig Frenhinol, Cangen Glynebwy £200<br>4. Cyfeillion Ysbyty Glynebwy £200<br>5. Ambiwlans Sant Ioan Tredegar £100<br>6. Eglwys yr Ymddŵyn Difrycheulyd £217.85<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 8** | **<u>CYNLLUN ADFERIAD COVID-19 BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol a | |

Gwasanaethau Cymunedol.

Siaradodd y Rheolwr Gyfarwyddwr am yr adroddiad sy’n ceisio cytundeb gan y Pwyllgor Gweithredol ar y dull a ddefnyddir i fonitro’r adferiad o bandemig Covid-19 ar draws gwasanaethau’r Cyngor a’r gymuned yn ehangach.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr at y sefyllfa ymateb argyfwng a fu yn ei lle ar draws yr Awdurdod dros y 2 flynedd diwethaf a dywedodd y bydd y gwaith hwn yn awr yn dod i ben a bod y Cyngor wedi dynodi cyfnod adferiad. Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y caiff y gwaith adferiad ei integreiddio i drefniadau llywodraethiant y Cyngor gan ddefnyddio’r prosesau Cynllunio Busnes a Rheoli Perfformiad. Caiff set o fesurau ei datblygu hefyd a ddefnyddid i fesur adferiad ar lefel strategol.

Ychwanegodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y Cynllun Adferiad a’r dull gweithredu a ddilynir yn cael ei gefnogi gan Craffu a chroesewir y byddai llawer o’r ffocws ar yr economi ar sut y byddai’r Cyngor yn cefnogi busnesau ac unigolion.

Dywedodd yr Arweinydd fod aelodau perthnasol y Pwyllgor Gweithredol wedi cymryd rhan lawn yn y gwahanol feysydd o waith a wnaed a themâu adferiad, ac y cafodd hyn i gyd ei adrodd drwy’r Pwyllgorau Craffu a’r Pwyllgor Gweithredol.

Dymunai’r Aelod Gweithredol – Datblygu Economaidd ac Adfywio ddiolch i staff ar draws y Cyngor am eu gwaith mewn ymateb i’r pandemig. Yn nhermau’r portffolio Datblygu Economaidd ac Adfywio, nododd yr Aelod Gweithredol yr arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer busnesau, fodd bynnag teimlid mai’r ffordd y cafodd ei ddosbarthu drwy’r Timau Adfywio ac Adnoddau oedd wedi galluogi’r Cyngor i gefnogi busnesau fel y gwnaeth yn ystod y pandemig. Teimlai’r Aelod Gweithredol y gwnaed gwaith gwych ac y gallai’r Cyngor yn awr dyfu o hyn lle y gallai fod wedi bod yn drychineb.

Mynegodd yr Aelod Gweithredol hefyd ei ddiolch i’r holl awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i gefnogi busnesau ar draws y wlad.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar y dull gweithredu a nodir i reoi adferiad o bandemig Covid 19 ar draws gwasanaethau’r Cyngor a’r gymuned yn ehangach (Opsiwn 1).

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| No. 9 | **CYMORTH ARDRETHI BUSNES – CYMORTH ARDRETHI MANWERTHU, HAMDDEN A LLETYGARWCH – 2022/23**<br><br>Datganodd y Cynghorydd J. Wilkins fuddiant yn yr eitem hon a ni chymerodd ran yn y trafodaethau na'r bleidlais.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol ei ystyried a mabwysiadu cynllun Cymorth Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch – 2022/23, fel cymorth ardrethi dewisol adran 47 ar gyfer 2022/23 ar ran y Cyngor.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau am yr adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau allweddol a gynhwysir yn yr adroddiad. Ychwanegodd y Prif Swyddog y byddai tua 300 o fusnesau ar draws Blaenau Gwent yn cael budd o'r cynllun, fodd bynnag er mwyn rhoi cymorth i drethdalwyr mae'n rhaid i'r Cyngor benderfynu mabwysiadu y cynllun a ragnodir gan Lywodraeth Cymru fel cynllun cymorth ardrethi dewisol yn unol ag adran 47 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a mabwysiadu cynllun Cymorth Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2022/23 ar ran y Cyngor i atodi cynllun cymorth ardrethi dewisol y Cyngor (Opsiwn 2). | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | |
| No. 10 | **STRATEGAETH CYRCHFAN ANEURIN BEVAN**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Adfywio fod yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i Strategaeth Cyrchfan Aneurin Bevan ac yn rhoi crynodeb o gynnwys y strategaeth ynghyd â'r themâu ar gyfer amrywiaeth o brosiectau ar gyfer twristiaeth ac adfywio economaidd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd y Pennaeth Adfywio y gwaith a wnaed ar y cyd yng nghyswllt twristiaeth a datblygu economaidd ac amlinellodd y prosiectau a ddynodwyd. Dywedwyd fod y Strategaeth yn clymu mewn i ac yn ategu Cynllun Rheoli Cyrchfan Blaenau Gwent ac y byddai'n rhoi fframwaith ar gyfer cyflenwi prosiectau lleol dan ymbarél strategol y cynllun rheoli. Ychwanegodd y Pennaeth Adfywio y byddai'n galluogi swyddogion i ddatblygu'r prosiectau, yn cynnwys gwaith dichonoldeb a sefydlu'r costau diweddaraf, unwaith y derbyniwyd cymeradwyaeth.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol Datblygu Economaidd ac Adfywio y gweithiwyd ar y strategaeth ers cryn amser a'i fod yn awr wedi dechrau ffitio mewn i Gynlluniau Creu Lleoedd y Cyngor gyda mwy o effaith yn Nhredegar ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dywedodd yr Aelod Gweithredol fod Nye Bevan yn cynrychioli Blaenau Gwent i gyd ac felly y dylai'r Cyngor edrych ar y strategaeth ar draws pob tref. Aeth yr Aelod Gweithredol ymlaen drwy ddweud nad am Nye Bevan yn unig oedd y strategaeth a theimlai ei bod yn bwysig fod y Cyngor yn edrych ar agweddau eraill yn cynnwys ein treftadaeth ddiwydiannol a'r Siartwyr sy'n rhan enfawr o'n hanes. Cyfeiriodd yr Aelod Gweithredol at arwyr chwaraeon y gellid hefyd eu hystyried a theimlai fod cyfle i ddatblygu llawer o agweddau treftadaeth o'n hanes ar draws y Fwrdeistref yn ein holl gymunedau yn unol â chynlluniau Creu Lleoedd y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar Strategaeth Aneurin Bevan (Opsiwn 1) | |
| **No. 11** | **<u>CAIS AM GYNNIG I GRONFA CODI'R GWASTAD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Adfywio fod yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod i gyflwyno cynnig i gronfa Codi'r Gwastad yn ystod yr ail alwad yn unol ag amserlen Codi'r Gwastad Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Rhoddodd y Pennaeth Adfywio drosolwg o gyllid Codi'r Gwastad a'r broses gynnig. Tynnodd y Pennaeth Adfywio hefyd sylw at waith y Tîm Adfywio ynghyd â'r prosiectau a ddynodwyd sy'n cyflawni'r meini prawf a gobeithiai y gellid symud ymlaen ag un o'r prosiectau.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithredol Datblygu Economaidd ac Adfywio mai un o'r heriau mwyaf am gronfa Codi'r Gwastad a'r cyllid | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adnewyddu Cymunedol oedd amseriad ac er bod y pandemig wedi ymyrryd ar waith, roedd yr Adran wedi rhoi pwysau sylweddol i gyflwyno prosiectau gyda'r cyllid sydd ar gael. Ychwanegodd yr Aelod Gweithredol mai Cam 1 yw hyn a gobeithid y gallai'r Cyngor gynnig am fwy o brosiectau fel y byddai cyllid yn dod ar gael.<br><br>Daeth yr Aelod Gweithredol i ben drwy ddweud fod y prosiectau a ymchwilir yn broblemau hirsefydlog ar gyfer y Fwrdeistref yn cynnwys maes parcio Glynebwy a gorsaf bysus Brynmawr. Mae'r rhain yn brosiectau mawr sy'n diwallu'r meini prawf ar gyfer cyllid Codi'r Gwastad a theimlai'r Aelod Gweithredol eu bod yn brosiectau a fyddai o fudd i'r Fwrdeistref cyfan.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytunwyd paratoi ceisiadau ar gyfer cylch nesaf cronfa Codi'r Gwastad o gynnig am y cynlluniau a ddynodir yn yr adroddiad (Opsiwn 1). | |
| | **<u>EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADDYSG</u>** | |
| **No. 12** | **<u>DRAFFT ADRODDIAD YMGYNGHORI CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 10-MLYNEDD BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg o ddrafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd Blaenau Gwent, gan roi barn, sylwadau ac ymatebion yn unol â'r broses ymgynghori. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dywedodd fod nifer o'r ymatebwyr yn cyfeirio at y cynnydd cadarnhaol a wnaed hyd yma, tra hefyd yn cydnabod ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu addysg Gymraeg a'r iaith Gymraeg. Byddai pob ymateb yn cael ei ystyried sy'n cynnwys meysydd lle'r oedd yr ymgyngoreion wedi awgrymu y gellid cryfhau'r drafft gynllun. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y diweddarwyd y ddogfen i adlewyrchu'r ymgynghoriad.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cafodd y cynllun drafft ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn yr ymgynghoriad yn unol â'u canllawiau clir ar 31 Ionawr 2022, fodd bynnag dywedodd y byddai'r ddogfen yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredol ac y cyflwynir y fersiwn terfynol ym Mawrth 2022 | |

| | | |
|---|---|---|
| | unwaith y cafodd ei chytuno gan y Pwyllgor Gweithredol. Nodwyd fod nifer o awdurdodau eraill yn dilyn y llwybr gweithredu hwn.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar y drafft Gynllun Cymraeg mewn Addysg 10-mlynedd (Opsiwn 1). | |
| **No. 13** | **<u>DIWYGIADAU I GYTUNDEB CYDWEITHREDU AC AELODAU (CAMA) GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG DE DDWYRAIN CYMRU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg mai diben yr adroddiad yw rhoi cyfle i'r Pwyllgor Gweithredol i ddiweddaru CAMA Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru. Ychwanegwyd y byddai'r cynnig a amlinellir yn yr adroddiad yn rhoi lefel addas ac angenrheidiol o gefnogaeth i'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) pe byddai angen iddo wneud newidiadau sylweddol i staffio, gyda chostau cyfyngol dilynol sy'n effeithio ar eu gallu i weithredu fel busnes parhaus.<br><br>Tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg sylw at bwyntiau allweddol yr adroddiad a nododd bod yr EAS yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwyr yn cynnig fod y pum awdurdod sy'n ei reoli yn ffurfioli cytundeb, tebyg i Brotocol Gwasanaethau ar y Cyd yr awdurdodau cartref i danysgrifio rhai costau diswyddo (h.y. taliadau dileu swyddi ac unrhyw gostau pensiwn cyfalaf gan y cyflogydd) yn deillio oherwydd bod EAS yn gorfod cymryd camau priodol i sicrhau cyllideb gytbwys. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cyflawnir hyn drwy i:-<br><br>• Yr awdurdodau cartref yn tanysgrifio'r costau diswyddo hynny a wnaed o fewn EAS sy'n codi drwy'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau cyllideb gytbwys. Byddai awdurdodau cartref yn tanysgrifio'r costau hyn, pro rata i'w canrannau cyfraniad creiddiol cyfredol, yn amodol ar i'r cwmni yn gyntaf gyfrannu 50% o'i falansau a gadwyd tuag at gyfanswm y gost.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y Pwyllgor Gweithredol ymhellach at yr effaith ar y gyllideb sy'n rhoi manylion sefyllfa cyswllt a gyflwynwyd ar gyfer pob awdurdod lleol yn seiliedig ar gyfraniadau perthnasol i'r EAS. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd yr Aelod Gweithredol Addysg fod y risg i'r Awdurdod yn isel o ran yr ymrwymiad ariannol y gofynnir amdano.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno ar y ffurf ddiwygiedig o eiriad yn yr adroddiad. Cytunwyd hefyd y dylid caniatáu EAS i gadw hanner cant y cant o'u balansau i ddiogelu eu hylifedd. | |
| | **EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CORFFORAETHOL** | |
| **No. 14** | **ADRODDIAD CYLLID A PHERFFORMIAD CHWARTERI 1 A 2 (EBRILL 2021 I MEDI 2021)**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 2). | |
| | **EITEMAU MONITRO - ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | |
| **No. 15** | **RHAGLEN PRENTISIAETH ANELI'N UCHEL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Adfywio fod yr adroddiad yn amlinellu perfformiad rhaglen Anelu'n Uchel ac ymgysylltu cysylltiedig â busnesau allanol. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth perfformiad ar raglen prentisiaeth mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.<br><br>Soniodd y Pennaeth Adfywio pa mor dda yr oedd y rhaglen wedi datblygu ac ychwanegodd fod rhaglen Anelu'n Uchel wedi ennill nifer o wobrau. Cafodd ei chydnabod wrth ochr prentisiaethau eraill ar gael pobl ifanc i waith. Tynnodd y Pennaeth Adfywio sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad a dywedodd y byddai unigolion wedi mynd ymlaen i astudio mewn addysg uwch pe na fyddent wedi mynd i swyddi. Gobeithir y gellir parhau rhaglen Anelu'n Uchel a gobeithiai gael trafodaethau gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac awgrymodd y gallai fod cyfleoedd i gysylltu gyda | |

| | | |
|---|---|---|
| | Hive.<br><br>Teimlai Aelod Gweithredol Datblygu Economaidd ac Adfywio fod y rhaglen Anelu'n Uchel yn llwyddiant gwych i'w sefydlu a bu'n bleser ei gweld yn tyfu. Croesawodd y diddordeb a ddangosodd Cyngor Merthyr Tudful a Choleg Gwent a theimlai y gallai rhaglen Anelu'n Uchel gystadlu yn erbyn unrhyw brentisiaethau yn y wlad gan ei bod yn ardderchog. Mae'n dynodi cyfleoedd ar gyfer yr awdurdod lleol a busnesau lleol sydd wedi manteisio o'r prentisiaethau a gynhaliwyd.<br><br>Dymunai'r Aelod Gweithredol hefyd dalu teyrnged i Mark Langshaw a fu'n hyrwyddo rhaglen Anelu'n Uchel o'r cychwyn cyntaf a gobeithir y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cyllid i sicrhau y caiff y gwaith da ei barhau i'r dyfodol.<br><br>Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a theimlai ei fod yn rhywbeth i'r Awdurdod ymfalchïo ynddo gyda chefnogaeth wleidyddol yr Aelod Gweithredol dros Ddatblygu Economaidd ac Adfywio.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 2). | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - ADDYSG</u>** | |
| **No. 16** | **<u>CYNNYDD BAND B YSGOLION YR 21AIN GANRIF</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| **No. 17** | **<u>CYFARWYDDIAETH ADDYSG – CYNLLUN ADFER AC ADNEWYDDU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ynghyd â'r dogfennau cysylltiedig a'r llwybr gweithredu a gynigir (Opsiwn 1). | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 18** | **<u>ADRODDIAD TYMHORAU GWANWYN A HAF Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADDYSG</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ynghyd â'r dogfennau cysylltiedig â'r llwybr gweithredu a gynigir (Opsiwn 1). | |
| **No. 19** | **<u>STRATEGAETH A DIWEDDARIAD PROSIECT TGCH ADDYSG/YSGOLION BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| | **<u>EITEMAU MONITRO - GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>** | |
| **No. 20** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22 (CHWARTERI 1 A 2) CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| **No. 21** | **<u>GWYBODAETH PERFFORMIAD DIOGELU AR GYFER GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AC ADDYSG – 1 EBRILL I 30 MEDI 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| **No. 22** | **<u>CRONFA RHEOLI EIDDO GWAG TRAWSNEWID CARTREFI</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y | |

| | | |
|---|---|---|
| | prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth hon ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrin gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 14, Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a rhoddodd y Pennaeth Adfywio drosolwg i'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>Croesawodd yr Aelod Gweithredol Datblygu Economaidd ac Adfywio yr adroddiad a theimlai ei fod yn newid pwysig yn sut y mae'r awdurdod lleol yn trin adeiladau gwag. Teimlai ei fod yn cyflwyno cyfle gwirioneddol ar draws ein trefi i wneud adeiladau ar gael a gwella canol ein trefi.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r wybodaeth sy'n cynnwys manylion yn ymwneud ag unigolyn a materion busnes/ariannol personau heblaw'r Awdurdod (Opsiwn 2). | |